

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

---

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Etholiadau

Rhagfyr 2021





# 1. Cefndir

## Bil Etholiadau Llywodraeth y DU

1. Cafodd y Bil Etholiadau<sup>1</sup> (y Bil) ei gyflwyno gerbron Tŷ'r Cyffredin, a chael ei ddarlleniad cyntaf ar 5 Gorffennaf 2021. Noddir y Bil gan yr Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau.
2. Mae'r nodiadau esboniadol i'r Bil yn nodi:

*"The Bill makes new provision for and amends existing electoral law to ensure that UK elections remain secure, fair, modern, inclusive and transparent."*<sup>2</sup>

3. Ar adeg cytuno i'r adroddiad hwn, nid oedd y dyddiad ar gyfer y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin wedi'i gadarnhau eto.
4. Ni fyddai mwyafrif darpariaethau'r Bil yn berthnasol i etholiadau datganoledig, ond byddent yn berthnasol i etholiadau a gadwyd yn ôl ac a gynhelir yng Nghymru.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

5. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu'n dod o fewn y cymhwysedd hwnnw.
6. Yn arbennig, mae Rheol Sefydlog 29.1 yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fydd Bil yn Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru:
  - at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd); neu
  - sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

---

<sup>1</sup> Y Bil Etholiadau, fel y'i cyflwynwyd [Bil 138 2021-22]

<sup>2</sup> Y Bil Etholiadau, Nodiadau Esboniadol, Gorffennaf 2021, paragraff 1

**7.** Wrth ystyried a oes angen cydsyniad ar gymal penodol, rydym wedi defnyddio'r "prawf diben" a nodir yn y pwynt bwled cyntaf (Rheol Sefydlog 29.1(i)) h.y. a oes gan y ddarpariaeth ddiben datganoledig.

**8.** Ar 9 Medi 2021, gosododd Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad (y Cwnsler Cyffredinol) Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol<sup>3</sup> (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.

**9.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, adrodd ar y Memorandwm erbyn 4 Tachwedd 2021.<sup>4</sup> Yn dilyn hynny, estynnwyd y dyddiad i 16 Rhagfyr 2021.<sup>5</sup>

### **Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer**

---

**10.** Mae paragraffau 6 i 41 o'r Memorandwm yn tynnu sylw at y cymalau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer ym marn Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn anghytuno<sup>6</sup> am y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.

**11.** Cytunir bod angen cydsyniad ar gyfer y cymalau canlynol<sup>7</sup>:

- Cymal 7 ac Atodlen 4 (yn ymwneud â dylanwad gormodol)
- Cymal 12 (yn ymwneud â'r Comisiwn Etholiadol);<sup>8</sup>
- Cymalau 16, 17 a 18 (yn ymwneud â gwariant tybiannol ar gyfer ymgeiswyr ac eraill)<sup>9</sup>
- Cymalau 22 i 25 (yn ymwneud â chyllid gwleidyddol).<sup>10</sup>

---

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Y Bil Etholiadau](#), Medi 2021

<sup>4</sup> Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Etholiadau](#), Gorffennaf 2021

<sup>5</sup> Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Etholiadau](#), Tachwedd 2021

<sup>6</sup> Y Bil Etholiadau, Nodiadau Esboniadol, Gorffennaf 2021, Atodiad 1

<sup>7</sup> Mae rhai rifau'r cymalau wedi newid yn dilyn diwygio'r Bil yng Nghyfnod y Pwyllgor ([Bil 178 2021-22, fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor](#)).

<sup>8</sup> Cymal 13 ar hyn o bryd, yn dilyn diwygiad i'r Bil yn ystod y Cyfnod Pwyllgor

<sup>9</sup> Cymalau 17-19 ar hyn o bryd, yn dilyn diwygiad i'r Bil yn ystod y Cyfnod Pwyllgor  
Cymalau 23-26 ar hyn o bryd, yn dilyn diwygiad i'r Bil yn ystod y Cyfnod Pwyllgor.

**12.** Fodd bynnag, mae yna anghytuno ar gydsyniad o ran y cymalau canlynol, y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod angen cydsyniad arnynt, yn groes i safbwynt Llywodraeth y DU.

- Cymal 13 (yn ymwneud â'r Comisiwn Etholiadol)<sup>11</sup>
- Cymalau 26 i 30 a 32 i 34 (yn ymwneud â bygwth)<sup>12</sup>
- Cymalau 35 i 56 (yn ymwneud ag argraffnod digidol)<sup>13</sup>
- Cymalau 57 a 58 (yn ymwneud â materion cyffredinol).<sup>14</sup>

**13.** Ar ôl anghytuno â Llywodraeth y DU i ddechrau, yn dilyn diwygiad i'r Bil, mae Llywodraeth Cymru bellach yn cytuno nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer Cymal 11 ac Atodlen 7 (Cymhwysedd Pleidleisio ac Ymgeisyddiaeth Dinasyddion Ewropeaidd) (gweler paragraffau 20 a 21 o'r adroddiad hwn).

## **Safbwynt Llywodraeth Cymru**

---

**14.** Mae paragraffau 43 i 47 o'r Memorandwm yn trafod y rhesymau pam nad yw Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i'r Bil wneud darpariaethau datganoledig penodol.

**15.** Yn ôl paragraff 43 o'r Memorandwm:

*"Rydym yn pryderu nad yw'r darpariaethau yn y Bil ynghylch atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol, fel y'u drafftwyd ar hyn o bryd, yn gydnaws â'r trefniadau atebolrwydd, a sefydlwyd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, rhwng y Comisiwn Etholiadol a Phwyllgor y Llywydd yn y Senedd".*

**16.** Mae paragraff 44 y Memorandwm yn nodi "efallai y bydd gan gynigion eraill yn y Bil rinweddau" ar gyfer etholiadau datganoledig ond mae'n datgan:

*"...yn hytrach na gwneud darpariaeth drwy'r Bil hwn, byddai'n well gennym ymgynghori â'n rhanddeiliaid a chyflwyno deddfwriaeth i'r Senedd maes o law."*

---

<sup>11</sup> Cymal 14 ar hyn o bryd, yn dilyn diwygiad i'r Bil yn ystod y Cyfnod Pwyllgor

<sup>12</sup> Cymalau 27-31 a 33-35 ar hyn o bryd, yn dilyn diwygiad i'r Bil yn ystod y Cyfnod Pwyllgor

<sup>13</sup> Cymalau 36-57 ar hyn o bryd, yn dilyn diwygiad i'r Bil yn ystod y Cyfnod Pwyllgor

<sup>14</sup> Cymalau 58-59 ar hyn o bryd, yn dilyn diwygiad i'r Bil yn ystod y Cyfnod Pwyllgor

---

**17.** At hynny, mae'r Memorandwm yn cynnwys barn y Cwnsler Cyffredinol nad oedd "hwn yn un o'r achlysuron hynny lle byddai'n ddefnyddiol manteisio ar Fil y DU i wneud darpariaeth frys."<sup>15</sup> Mae'r Memorandwm yn nodi hefyd:

*"Gan nad oes mantais amseru o ran gwneud darpariaeth ddatganoledig o fewn y Bil hwn, gallwn flaenoriaethu egwyddorion eraill o fewn ein dull cyffredinol o ddeddfu. Rydym wedi ymrwymo i wella hygyrchedd cyfraith Cymru yn unol â Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, ac mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun cyfraith etholiadol gymhleth. Byddai'n well gennym gydgrynhoi'r gyfraith cyn belled ag y bo modd, ac yn bwysig ei gwneud yn ddwyieithog, o fewn deddfwriaeth y Senedd – yn hytrach na chaniatáu'r darnio pellach y byddai'r Bil hwn yn ei greu.*

*Fodd bynnag, rwyf wedi cytuno gyda Llywodraeth y DU y byddaf yn ystyried ymhellach y cynigion yn y Bil sydd o bosibl yn cynnwys rhinweddau. Yn benodol, byddaf eisiau sicrhau fi fy hun, a'r Senedd, nad oes anfanteision sylweddol ac uniongyrchol i bleidleiswyr a rhanddeiliaid yng Nghymru wrth ddilyn y cynigion hyn yn neddfwriaeth Cymru yn y dyfodol, yn hytrach nag yn y Bil hwn."*<sup>16</sup>

**18.** Yn ôl paragraff 52 o'r Memorandwm:

*"Yn fy marn i, nid yw'n briodol ymdrin â'r darpariaethau a ddisgrifir uchod yn y Bil hwn gan Senedd y DU. Er fy mod yn gweld manteision ymdrin â rhai o'r materion yn y Bil hwn ar gyfer etholiadau datganoledig, fy newis i, yn amodol ar ystyriaeth bellach fel rwy'n nodi uchod, yw gwneud hynny drwy ddeddfwriaeth y Senedd maes o law. Felly, ni allaf ar hyn o bryd argymhell cydsyniad i'r Bil."*

## 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**19.** Gwnaethom ystyried y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 18 Hydref 2021,<sup>17</sup> ar y cyd â briff ysgrifenedig gan y Comisiwn Etholiadol<sup>18</sup> a gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol.<sup>19</sup> At hynny,

---

<sup>15</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraff 45

<sup>16</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraffau 46-47

<sup>17</sup> [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#), 11 Hydref 2021

<sup>18</sup> Y Comisiwn Etholiadol, [Briff Bil Etholiadau Llywodraeth y DU – yr effaith ar etholiadau yng Nghymru](#), Medi 2021

<sup>19</sup> [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol](#), 12 Hydref 2021

gwnaethom ystyried gohebiaeth gan Bwyllgor y Llywydd a anfonwyd at Kemi Badenoch AS, y Gweinidog Gwladol dros Godi'r Gwastad a Chydraddoldebau, o ran darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud ag atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol.<sup>20</sup>

**20.** Cytunwyd ar ein hadroddiad ar 15 Tachwedd 2021.

## Ein barn ni<sup>21</sup>

### Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

---

**21.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru o'r cymalau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer (gweler paragraffau 11 a 12). Fodd bynnag, wrth ddod i'r farn hon, nodwn, fel yr eglurodd llythyr y Cwnsler Cyffredinol ar 12 Hydref 2021, fod safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch cymal 11 ac Atodlen 7 wedi newid yn dilyn diwygiad i'r Bil, fel nad yw bellach yn ystyried bod angen cydsyniad. Mae llythyr y Cwnsler Cyffredinol yn egluro bod y darpariaethau hyn wedi cael eu diwygio yn Senedd y DU i gywiro'r canlyniadau anfwriadol ar gyfer etholiadau datganoledig ac i gyfyngu'r graddau y maent yn gymwys ar gyfer etholiadau a gadwyd yn ôl, yn unol â'r bwriad gwreiddiol.

**22.** At hynny, rydym yn nodi barn y Cwnsler Cyffredinol nad oedd angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol i gwmpasu'r diwygiadau perthnasol oherwydd eu bod yn gwneud darpariaeth yn ganlyniadol i faterion sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac o ganlyniad nid oes angen cydsyniad y Senedd arnynt yn rhinwedd yr eithriad yng Ngorchymyn Sefydlog 29.1(i).

### Effaith anuniongyrchol y Bil ar etholiadau datganoledig

---

**23.** Nodwn nad yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynigion y Bil i gyflwyno prawf adnabod ar gyfer pleidleiswyr (cymal 1), gosod cyfyngiadau ar bleidleisio trwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy (cymalau 2, 3 a 5) nac estyn yr etholfraint dramor (cymal 10)<sup>22</sup>, er iddi gydnabod nad yw'r Bil yn gwneud y rhain yn gymwys i Gymru, o ganlyniad i bryderon "am ganlyniadau anfwriadol posibl megis dryswch i bleidleiswyr ac ymgeiswyr a chymhlethdod i weinyddwyr."<sup>23</sup> Rydym hefyd yn nodi barn Llywodraeth Cymru y gallai beichiau ariannol ychwanegol gael eu

---

<sup>20</sup> Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor y Llywydd at Kemi Badenoch AS, y Gweinidog Gwladol dros Godi'r Gwastad a Chydraddoldebau, 18 Hydref 2021

<sup>21</sup> Mae cyfeiriadau at gymalau yn yr adran Ein barn ni yn gyfeiriadau at gymalau yn y Bil fel y'i cyflwynwyd ac yn y Memorandwm. Darperir manylion am newidiadau i rifau'r cymalau yn dilyn diwygio'r Bil yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn y troednodiadau i baragraffau 11-12 o'r adroddiad hwn.

<sup>22</sup> Cymal 11 ar hyn o bryd, yn dilyn diwygiad i'r Bil yn ystod y Cyfnod Pwyllgor

<sup>23</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraff 42

gosod ar awdurdodau lleol yng Nghymru, yn arbennig ynghylch gweinyddu'r ddogfen hunaniaeth etholiadol y gellir ei defnyddio at ddibenion adnabod mewn gorsaf bleidleisio.<sup>24</sup>

**24.** Cynhaliwyd etholiad cyffredinol y Senedd yn 2021 ar y cyd ag etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (mae'r cyfrifoldeb dros yr etholiadau hynny wedi'u gadw'n ôl gan Senedd y DU). Os bydd etholiad ar y cyd yn y dyfodol, gallai'r Bil arwain yn anuniongyrchol at ofyniad i ddangos dogfen adnabod ffotograffig fel amod o gael pleidleisio yn etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, ond nid yn etholiadau'r Senedd.

**25.** Nodwn fod Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, wrth siarad am y Bil, wedi mynegi pryderon y bydd yn rhaid i glercod pleidleisio wrthod mynediad i bobl wrth ddrysau'r gorsafoedd pleidleisio, a gyrru ymaith o bosibl filoedd o ddarpar bleidleiswyr ym mhob etholiad.

<sup>25</sup>

**26.** At hynny, rydym yn nodi rhybudd y Comisiwn Etholiadol bod potensial i beri dryswch i bleidleiswyr, "yn enwedig os bydd etholiadau'r DU ac etholiadau Cymru (yn cynnwys is etholiadau) yn cael eu cynnal yn agos at ei gilydd, neu hyd yn oed ar yr un diwrnod".<sup>26</sup>

**27.** Pan nad yw'r etholiadau'n cael eu cynnal ar yr un pryd, gallai hynny olygu y bydd y gofynion o ran pleidleisio yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, gan ddibynnu a oedd y bleidlais yn etholiad a gadwyd yn ôl neu'n etholiad datganoledig.

**28.** Gall darpariaethau eraill yn y Bil, os caiff ei basio, hefyd gael effaith anuniongyrchol ar etholiadau datganoledig. Er enghraifft, ar hyn o bryd, gall etholwyr yng Nghymru aros yn gofrestredig ar gyfer pleidleisiau post am gyfnod amhenodol, ond mae'n rhaid iddyn nhw adnewyddu eu llofnod bob pum mlynedd. Os caiff y Bil ei basio, mae'n golygu y bydd dwy drefn bleidleisio absennol yn cydreddeg gan ei gwneud yn ofynnol i berson ailgofrestru at ddibenion pleidlais bost bob tair blynedd ar gyfer etholiadau a gadwyd yn ôl (fel y cynigir yn y Bil) a hefyd adnewyddu eu llofnod ar gyfer etholiadau datganoledig bob pum mlynedd. Mae amseru'r cyfnodau adnewyddu yn golygu, o raid, y gall fod yn ofynnol i berson adnewyddu ei bleidlais bost ar gyfer etholiad a gadwyd yn ôl, a diweddarau ei lofnod ar gyfer etholiadau datganoledig o fewn cyfnodau sy'n agos iawn at ei gilydd, er enghraifft mewn blynyddoedd olynol.

---

<sup>24</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraff 48

<sup>25</sup> Nation Cymru, [Welsh Government refuses consent for Elections Bill which would ban those without ID from voting](#), 10 Medi 2021

<sup>26</sup> Y Comisiwn Etholiadol, Briff: Bil Etholiadau Llywodraeth y DU – yr effaith ar etholiadau yng Nghymru, Medi 2021



**29.** Gall y gwaharddiad arfaethedig ar drin pleidleisiau post hefyd effeithio'n anuniongyrchol ar etholiadau datganoledig. Er enghraifft, os bydd etholiadau'n cael eu cynnal ar yr un pryd yn y dyfodol, mae'n bosibl y byddai hynny'n golygu y gallai ymgyrchwyr drin pleidleisiau'r Senedd, ond nid pleidleisiau ar gyfer etholiad a gadwyd yn ôl. Gallai hynny fod yn ffactor os yw papurau pleidleisio ar gyfer etholiadau a gynhelir ar yr un pryd yn y dyfodol yn cael eu cynnwys mewn un pecyn pleidleisio, fel yr oeddent ar gyfer etholiad y Senedd ac etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn 2021.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru a'r Comisiwn Etholiadol y gallai cymalau 1, 2, 3, 5 a 10 o'r Bil gael effaith anuniongyrchol sylweddol ar etholiadau datganoledig, er enghraifft dryswch ar gyfer pleidleiswyr ac ymgeiswyr a chymhlethdod ar gyfer gweinyddwyr etholiadau. Rydym felly'n pryderu am effaith bosibl y Bil ar ymgysylltiad dinasyddion yng Nghymru â'r broses ddemocrataidd.

**Argymhelliad 1.** Ar ôl i'r Bil orffen ei hynt trwy Senedd y DU, dylai'r Cwnsler Cyffredinol gyhoeddi datganiad ar oblygiadau'r ddeddfwriaeth ar gyfer etholiadau datganoledig yng Nghymru.

## **Cymalau 12 a 13 ynghylch y Comisiwn Etholiadol**

---

**30.** Mae'r Comisiwn Etholiadol yn annibynnol ar Lywodraeth y DU ac yn adrodd i Senedd y DU trwy Bwyllgor y Llefarydd ar y Comisiwn Etholiadol. Ers *Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020* (Deddf 2020), mae'r Comisiwn Etholiadol bellach yn atebol i'r Senedd trwy Bwyllgor y Llywydd mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru. At hynny, mae Deddf 2020 yn darparu i'r Comisiwn Etholiadol gael ei ariannu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn adrodd i Bwyllgor y Llywydd ar ei amcangyfrifon blynyddol a'i gynllun pum mlynedd lle bo'r rhain yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn sydd wedi'u datganoli i Gymru.

**31.** Mae cymal 12 yn diwygio Rhan 1 o *Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000* (Deddf 2000) drwy fewnosod adrannau newydd sy'n darparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi 'Datganiad Strategaeth a Pholisi' a fydd yn nodi canllawiau y mae'n rhaid i'r Comisiwn Etholiadol roi sylw iddynt wrth gyflawni ei swyddogaethau. Os cyhoeddir Datganiad o dan gymal 12 o'r Bil, rhaid i'r Comisiwn Etholiadol baratoi adroddiad ar gyfer Pwyllgor y Llefarydd i ddangos yr hyn y a wnaeth mewn ymateb.

**32.** At hynny, mae yna ofyniad yng nghymal 12 i ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar y datganiad drafft, i'r graddau y mae'r drafft yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn sydd

wedi'u datganoli i Gymru. Ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud unrhyw newidiadau i Ddatganiad sy'n angenrheidiol yn ei farn.

**33.** Diffinnir swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol sydd wedi'u datganoli i Gymru yn y Bil fel y swyddogaethau (i'r graddau nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*) sy'n ymwneud ag:

- etholiadau cyffredinol y Senedd;
- is-etholiadau ar gyfer seddi etholaethol y Senedd;
- etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru; a
- refferenda a gynhelir o dan Ran 2 o *Ddeddf Llywodraeth Leol 2000* neu Ran 4 o *Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011* (refferenda sy'n ymwneud â threfniadau swyddogion awdurdodau lleol).

**34.** Mae cymal 13 yn mewnosod adran 13ZA newydd yn Neddf 2000 sy'n ehangu rôl Pwyllgor y Llefarydd i gynnwys pŵer i archwilio sut y mae'r Comisiwn Etholiadol yn cyflawni ei ddyletswydd i roi sylw i'r Datganiad Strategol a Pholisi.

**35.** Rydym wedi nodi uchod ein cytundeb â Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 13, er nad yw'r farn hon yn cael ei rhannu gan Lywodraeth y DU.

**36.** Rydym hefyd yn nodi barn y Comisiwn Etholiadol bod:

*"...atebolrwydd cadarn i seneddau'r DU a phrosesu craffu effeithiol ganddynt yn hanfodol er mwyn i'r Comisiwn Etholiadol sicrhau hyder yn ei waith ar draws y sbectrwm gwleidyddol. Mae rôl y Senedd, yn ogystal â Senedd y DU a Senedd yr Alban, yn bwysig er mwyn cyflawni hyn. Mae'n rhaid i'r Comisiwn hefyd allu penderfynu ar ei flaenoriaethau a gweithio'n annibynnol ar ddylanwad neu reolaethau'r llywodraeth. Mae'n hanfodol na ddylai fod unrhyw ymwneud gwirioneddol na chanfyddedig â'n swyddogaethau gweithredol na'n prosesau gwneud penderfyniadau gan y llywodraeth.*

*Byddai'r Strategaeth a'r Datganiad Polisi arfaethedig yn rhoi cwmpas newydd ac eang i Weinidogion Llywodraeth y DU yn awr ac yn y dyfodol i gysoni gweithgareddau'r Comisiwn ag amcanion strategol Llywodraeth y DU, a llywio'r ffordd y mae'r Comisiwn yn arfer ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda yn y dyfodol. Mae'r cynigion, fel y maent wedi'u geirio ar hyn o bryd, yn mynd y tu hwnt i atebolrwydd a phrosesau craffu'r*

*Comisiwn a'r penderfyniadau a wneir ganddo drwy alluogi Llywodraeth y DU i gyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer y Comisiwn, gan, felly, gyfarwyddo ac arwain y modd y gwneir y penderfyniadau hynny."*<sup>27</sup>

**37.** Mewn modd tebyg, mae Llywodraeth Cymru yn codi pryderon ynghylch y darpariaethau ar atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol. Yn benodol:

- nid yw o'r farn eu bod yn gydnaws ag atebolrwydd y Comisiwn i Bwyllgor y Llywydd yn y Senedd a sefydlwyd o dan Ddeddf 2020;<sup>28</sup>
- nid yw'r ddyletswydd i ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar y Strategaeth a'r Datganiad Polisi arfaethedig, o ran y modd y mae'r drafft yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn sydd wedi'u datganoli i Gymru, yn ddigonol. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y gallai cyhoeddi Strategaeth heb gynnwys y Senedd, "arwain at gostau ychwanegol i'r Comisiwn Etholiadol a fyddai, mewn meysydd datganoledig, yn gorfod cael eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru, yn amodol ar gytundeb gan y Senedd".<sup>29</sup>

**38.** Fel y'i drafftiwyd, nid yw'r Bil yn darparu ar gyfer unrhyw ofynion ymgynghori na mewnbwn gan Bwyllgor y Llywydd ar Ddatganiad arfaethedig. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi dweud, o ran "atebolrwydd ac annibyniaeth y Comisiwn, mae'n bwysig bod cydraddoldeb wrth ymgynghori â'r tair deddfwrfa".<sup>30</sup>

**39.** Nodwn fod Pwyllgor y Llywydd wedi nodi fel a ganlyn mewn gohebiaeth â Llywodraeth y DU:

*"Serch penderfyniad ehangach y Senedd ar gydsynio i'r Bil, mae Pwyllgor y Llywydd o'r farn y dylid diwygio'r Bil Etholiadau i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU ymgynghori â Phwyllgor y Llywydd os yw'r Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi Datganiadau Strategaeth a Pholisi sy'n berthnasol i'r modd y mae'r Comisiwn Etholiadol yn arfer ei swyddogaethau datganoledig yng Nghymru. Byddai hyn yn sicrhau cydraddoldeb o ran y ffordd yr ymdrinnir â*

---

<sup>27</sup> Y Comisiwn Etholiadol, Briff: Bil Etholiadau Llywodraeth y DU – yr effaith ar etholiadau yng Nghymru, Medi 2021

<sup>28</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraff 43

<sup>29</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraffau 50-51

<sup>30</sup> Y Comisiwn Etholiadol, Briff: Bil Etholiadau Llywodraeth y DU – yr effaith ar etholiadau yng Nghymru, Medi 2021

*Phwyllgor y Llywydd a'r ffordd y mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â Phwyllgor y Llefarydd."*<sup>31</sup>

**40.** Hyd nes y cyhoeddir Datganiad, nid yw'n eglur i ni i ba raddau y gall Datganiad geisio cyfarwyddo gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn meysydd datganoledig neu mewn ffyrdd a allai fod yn anghydnaws â'i gynllun pum mlynedd a gyflwynwyd i Bwyllgor y Llywydd ac y cynhaliwyd gwaith craffu yn ei gylch.

**41.** Ar wahân i gynnwys Datganiad, mae ei effaith yn ymarferol hefyd yn debygol o ddibynnu ar y ffordd y mae'r Comisiwn Etholiadol yn dewis 'rhoi sylw' i'r datganiad wrth arfer ei swyddogaethau. Nodwn fod y Comisiwn wedi dweud, er ei fod yn ymddangos y bydd yn gallu gwroddi wrth Ddatganiad "os bydd yn ystyried yn rhesymol bod ystyriaethau eraill yn cyfiawnhau iddo wneud hynny", mae angen diwygiadau wrth ddrafftio'r Bil i wneud hyn yn "ymarferol, yn realistig ac yn rhywbeth a all gael ei gadarnhau yn y Llysoedd".<sup>32</sup>

**42.** Mae gwefan y Comisiwn Etholiadol yn cynnwys adran sy'n rhoi ei farn ar bob un o brif gynigion y Bil. Gan gydnabod bod y Comisiwn yn adrodd i'r Senedd ac yn cael ei ariannu'n rhannol gan y Senedd, mae'n nodi:

*"Felly, rydym yn disgwyl y bydd y datganiad [Strategaeth a Pholisi], a'r prosesau cysylltiedig, yn adlewyrchu'r atebolrwydd pwysig hwn a rennir ac na fyddant yn ei danseilio".*<sup>33</sup>

**Casgliad 2.** Rydym yn hynod bryderus am y darpariaethau a nodir yng nghymalau 12 a 13 gan eu bod yn effeithio ar feysydd datganoledig a'r trefniadau atebolrwydd diweddar a nodwyd mewn deddfwriaeth a wnaed gan y Senedd yn 2020. Mae methiant y Bil i gydnabod *Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020*, heb sôn am ei dwyn i ystyriaeth, yn destun gofid.

**Casgliad 3.** Yr un yw'r pryder ynghylch yr hyn sy'n ymddangos fel diffyg ymgysylltiad rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn maes arwyddocaol o ran polisi cyhoeddus, ac un sydd o bwysigrwydd sylfaenol i hawliau dinasyddion a'u hymgysylltiad yn y broses ddemocrataidd i benderfynu pwy sy'n eu llywodraethu.

---

<sup>31</sup> Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor y Llywydd at Kemi Badenoch AS, y Gweinidog Gwladol dros Godi'r Gwastad a Chydraddoldebau, 18 Hydref 2021

<sup>32</sup> Y Comisiwn Etholiadol, Briff: Bil Etholiadau Llywodraeth y DU – yr effaith ar etholiadau yng Nghymru, Medi 2021

<sup>33</sup> Y Comisiwn Etholiadol, *Strategaeth a Datganiad Polisi i'r Comisiwn*, 5 Gorffennaf 2021

## Cynnydd cyffredinol

---

**43.** Nodwn farn Llywodraeth Cymru na ddylid rhoi cydsyniad i'r Bil a'r rhesymau dros y farn honno fel y'u nodir yn y Memorandwm.

**44.** Rydym yn croesawu'r farn a fynegwyd yn y Memorandwm y byddai'n well gan Lywodraeth Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid yng Nghymru a chyflwyno ei deddfwriaeth etholiadol ei hun ar gyfer gwaith craffu yn y Senedd maes o law. Roeddem yn falch, felly, o glywed y Cwnsler Cyffredinol yn ategu'r farn hon mewn sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor ar 20 Medi 2021, pan amlygodd sut mae etholiadau llywodraeth leol a'r Senedd o fewn cyfrifoldebau datganoledig y Senedd, a'i bod hi'n hen bryd diwygio cyfraith etholiadol yn ogystal â'i chydgrynhoi, gan nodi hefyd y byddai deddfwriaeth y Senedd yn ddwyieithog.<sup>34</sup>

**45.** At hynny, rydym yn nodi'r bwriad a awgrymir y gallai deddfwriaeth newydd gael ei dwyn ymlaen mewn pryd ar gyfer etholiad nesaf y Senedd yn 2026.<sup>35</sup>

**46.** Rydym yn nodi, fodd bynnag, bod y Memorandwm yn cyfeirio at y ffaith bod y Cwnsler Cyffredinol eisiau sicrhau ei hun "nad oes anfanteision sylweddol ac uniongyrchol i bleidleiswyr a rhanddeiliaid yng Nghymru wrth ddilyn y cynigion hyn yn neddfwriaeth Cymru yn y dyfodol, yn hytrach nag yn y Bil hwn." (gweler paragraff 16 uchod).

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol gadarnhau cyn gynted â phosibl ei fwriad i gyflwyno Bil i Gymru ar gyfraith etholiadol mewn pryd ar gyfer etholiad cyffredinol nesaf y Senedd yn 2026.

**47.** Nodwn hefyd fod y Cwnsler Cyffredinol yn gweithio gyda Llywodraeth y DU gyda'r bwriad o geisio diwygiadau i'r Bil er mwyn adlewyrchu safbwynt polisi Llywodraeth Cymru (gweler paragraff 17 uchod).

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol gymryd y camau canlynol ar y cyfle cyntaf:

- cadarnhau canlyniad ei drafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch diwygio'r Bil gan gynnwys mewn perthynas â chymalau 12 a 13 sy'n ymwneud â'r Comisiwn Etholiadol;
- egluro natur y diwygiadau sy'n cael eu ceisio, gan gynnwys i ba raddau y maen nhw'n ymwneud â diben datganoledig;

---

<sup>34</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, **Y Cofnod** [65], 20 Medi 2021

<sup>35</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraff 45

---

- cyngori pa bryd, ac os yw'n briodol, ei fod yn bwriadu cyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol sy'n ymwneud â chyflwyno diwygiadau yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

**48.** Yn olaf, rydym am dynnu sylw at un agwedd ar y Memorandwm lle'r ydym o'r farn y byddai rhagor o wybodaeth wedi bod o gymorth. Fel Pwyllgor, mae gennym ddiddordeb mewn cysylltiadau rhynglywodraethol, yn enwedig yng nghyd-destun trafodaethau ar Filiau lle mae'n bosibl y bydd angen cydsyniad y Senedd. Fel y cyfeiriwn ato yn y drafodaeth ar gymalau 12 a 13, nid yw'n glir i ni sut y daethpwyd i'r safbwynt a nodwyd yn y Memorandwm a phryd, ac i ba raddau, y gwnaeth Llywodraeth y DU ymgysylltu â Llywodraeth Cymru. Byddai gwybodaeth o'r fath wedi bod yn ddefnyddiol i ni, nid yn unig o ran deall sut mae'r Bil wedi'i ddatblygu ond hefyd yng nghyd-destun ein diddordeb ehangach mewn cysylltiadau rhynglywodraethol, a chynnal gwaith craffu arnynt.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys sylwebaeth ar hyd a lled y cydweithredu ac ymgysylltu gyda Llywodraeth y DU ym mhob Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ofynnol yn rhinwedd Rheol Sefydlog 29.